# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 19 Ebrill 2005]

**Dydd Mawrth 26 Ebrill a dydd Mercher 27 Ebrill 2005**

**Dydd Mawrth 3 Mai a dydd Mercher 4 Mai 2005**

**Dydd Mawrth 10 Mai a dydd Mercher 11 Mai 2005**

## Dydd Mawrth 26 Ebrill 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- ***Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)***
- **Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2005**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi (gan gynnwys troseddau a chosbau) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004. Mae Rheoliad y CE yn gosod gofynion penodol ar gyfer labelu bwydydd a chynhwysion bwydydd sy'n cynnwys stereolau planhigion ychwanegol. Mae stereolau i'w cael yn naturiol mewn planhigion ac maent yn gostwng lefelau colesterol yn y gwaed trwy leihau'r gyfradd y mae'r coluddyn yn amsugno colesterol. Fe'u ceir mewn olewau planhigion megis olew had blodau'r haul, olew had rêp ac olew ffa soia, ac mewn cnau, hadau a grawn. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig hefyd yn cyflwyno gofynion ar gyfer labelu rhai bwydydd penodol sy'n destun disgresiwn cenedlaethol o dan Gyfarwyddeb 2000/13/EC (bwydydd nad ydynt wedi'u pacio'n barod neu eu pacio'n barod i'w gwerthu'n uniongyrchol).

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005 (15 munud)**

Bydd y Gorchymyn Cychwyn hwn yn dod â rhagor o ddarpariaethau Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i rym, wedi'i gyfyngu i gychwyn adrannau 62 (y ddyletswydd i baratoi cynlluniau datblygu lleol) a 63 (canllawiau paratoi), i'r graddau nad ydynt eisoes wedi'u dwyn i rym, ynghyd ag adrannau 72 (y pwer i baratoi cynllun ar y cyd) a 73 (eithrio rhai cynrychioliadau). Byddai hyn yn galluogi cymryd pob cam hyd at, ond heb gynnwys, y cam bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio'n annibynnol (gan berson sydd wedi'i benodi gan y Cynulliad). Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaeth drosiannol, sy'n eithrio'r awdurdodau cynllunio lleol hynny nad ydynt yn barod i fynd ati ar hyn o bryd i baratoi cynlluniau datblygu lleol. Bydd cynlluniau datblygu lleol yn disodli'r cynlluniau datblygu unedol presennol sy'n nodi polisïau a chynigion yr awdurdodau cynllunio ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Effaith fwriedig y Rheoliadau hyn yw cyflwyno cymhwyster gorfodol ar gyfer pob pennaeth tro cyntaf parhaol yng Nghymru o 1 Medi 2005 ymlaen. O'r dyddiad hwnnw, bydd yn ofynnol i bob pennaeth tro cyntaf parhaol:

  - feddu ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH);
  - meddu ar statws athro cymwysedig;
  - cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

  Bydd cyflwyno'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol cyson yn cael ei ddarparu i bawb sy'n dymuno bod yn bennaeth yng Nghymru, a bydd hefyd yn cyflwyno gofynion mynediad safonol a chydnabyddedig ar gyfer pob pennaeth a gaiff ei benodi yn y dyfodol.

- **Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (45 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2005**

  Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi arfau newydd, mwy effeithiol i awdurdodau lleol (a hefyd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn nhermau'r darpariaethau tai) ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag adrannau 12, 14 a 15 ac Atodlen 1 o Ddeddf

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Mae adran 12 yn rhoi dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol (awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) i baratoi a chyhoeddi polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae adran 14 yn diwygio Deddfau Tai 1985 ac 1988 er mwyn darparu ar gyfer tenantiaethau isradd. Mae adran 14(5) yn cyfeirio at Atodlen 1 sy'n diwygio rhannau perthnasol o Ddeddfau Tai 1985 ac 1996 er mwyn darparu ymhellach ar gyfer tenantiaethau isradd ac yn rhoi pwer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae adran 15 yn diwygio Deddf Tai 1988 ac yn nodi'r sail cyfreithiol dros y math o denantiaeth isradd y gellir ei defnyddio gan gymdeithasau tai.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tenantiaethau Isradd (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2005**

    Mae Rheoliadau Tenantiaethau Isradd (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2005 yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn gan landlordiaid cymdeithasol lle mae tenant yn gwneud cais i'r landlord adolygu ei benderfyniad i feddiannu eu tenantiaeth isradd. Mae tenantiaeth isradd yn dod yn sgil landlord cymdeithasol yn sicrhau gorchymyn israddio drwy lys sirol.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2005**

    Mae Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn rhagnodi ffurf y rhybudd y dylid ei roi i denant diogel cyn i landlord ddechrau achos i geisio gorchymyn israddio (adran 83 o Ddeddf Tai 1985 fel y'i diwygiwyd gan adran 14 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003). Mae adrannau tai awdurdodau lleol yn defnyddio tenantiaethau diogel. Maent yn ddiogel, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio gorchymyn llys er mwyn diogelu annedd a feddiennir gan denant diogel.

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol (60 munud)**

    Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon adolygiad polisi i gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon i Adfywio Cymunedol. Mae'r Adroddiad yn ystyried

- y cysylltiadau rhwng y polisi celfyddydau, y polisi chwaraeon a'r polisi adfywio cymunedol;
- sut y mae prosiectau celfyddydau a chwaraeon lleol yn gallu cyfrannu i adfywio cymunedol;
- mecanweithiau cymorth ar gyfer prosiectau celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig

ag adfywio cymunedol;

- arferion gorau mewn prosiectau celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol;
- argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru

## Dydd Mercher 27 Ebrill 2005

- **Cynnig/Cynigion i sefydlu Pwyllgor Archwilio ad hoc ac ethol ei aelodau (1 munud)**
- **Cynnig/Cynigion i ethol aelodau i'r Pwyllgorau Rhanbarthol (1 munud)**
- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Yr Amgylchedd Hanesyddol (30 munud)**
- **Dadl ar y Fframwaith Strategol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd (90 munud)**

  Rhaglen hirdymor (10-15 mlynedd) ar draws sectorau yw Rhaglen Blaenau'r Cymoedd. Ei diben yw bwrw ati â'r gwaith parhaus o adfywio Blaenau'r Cymoedd yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael yn strategol â gwraidd y problemau y mae Blaenau'r Cymoedd yn eu hwynebu, a lledaenu llewyrch i'r ardal trwy adeiladu ar y lefelau sylweddol o fuddsoddiad sy'n cael eu gwneud yn yr ardal, a sicrhau bod y buddsoddiadau hynny yn cael yr effaith fwyaf posibl.

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 3 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005**

  Tir Mynydd yw mesur cymorth Ardal Lai Ffafriol o dan Reoliadau cyfredol y Cyngor Ewropeaidd a Datblygiad Gwledig y Comisiwn, a gymeradwywyd yn ffurfiol fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Tir sydd dan anfantais neu sydd dan anfantais ddifrifol yw Ardal Lai Ffafriol fel y'i dangosir yng Nghyfrolau

1 a 2 o'r gyfrol o fapiau ardaloedd ffermio llai ffafriol yng Nghymru, dyddiedig 20 Mai 1991. Mae lwfansau digolledu yn cael eu talu ar gyfer porthiant ardaloedd llai ffafriol i ffermwyr sydd: yn ffermio o leiaf 6 hectar, yn addo parhau i ffermio am o leiaf bum mlynedd o'r taliad cyntaf o lwfans digolledu, a rhoi arferion ffermio da arferol ar waith sy'n gydnaws â'r angen i ddiogelu'r amgylchedd a chynnal cefn gwlad, yn benodol drwy ffermio cynaliadwy. Cynllun Tir Mynydd yw'r sail dros dalu'r lwfansau hyn i ffermwyr Cymru. Yn sgil diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (gan gynnwys dod â cheisiadau da byw i ben o 2005) a mesurau newydd i ffermwyr organig, sy'n effeithio ar Gynllun Tir Mynydd, bu'n rhaid diwygio'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cynllun 2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i ddaliadau sydd wedi'u lleoli'n gyfangwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn nodi'n benodol y gweithdrefnau cychwynnol i'w dilyn wrth ddelio ag/penderfynu ar apelau a gyflwynir gan berchennog tir neu ffermwr yn erbyn awdurdod mynediad sydd wedi rhoi rhybudd yn gofyn iddynt wneud gwaith i ddiogelu neu wella mynediad i dir.

- **30 mins reserved for subordinate legislation**
- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Gludiant i'r Ysgol (60 munud)**

  Pwrpas y ddadl yw ystyried materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar gludiant i'r ysgol. Mae hwn yn canolbwyntio ar y cludiant a ddarperir i'r ysgol ac o'r ysgol ar y bws ac yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau bws. Prif nod yr argymhellion hyn yw gwella diogelwch ond eir i'r afael hefyd â nifer o faterion eraill, gan gynnwys caffael, diogelwch ac ansawdd y ddarpariaeth.

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (45 munud)**

  Mae Rheol Sefydlog 6.6 yn ei gwneud yn ofynnol neilltuo amser yn ystod pob cyfnod deuddeg mis i ddadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

## Dydd Mercher 4 Mai 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (20 munud)**
- **Dadl ar ESTYN (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 10 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad o'r Rhyngwyneb rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol (30 munud)**

  Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2003 *(Adroddiad Wanless),* penderfynodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal adolygiad polisi o'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau'r adolygiad oedd gwerthuso effeithiolrwydd cydweithio a chydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol; nodi arferion da a chynnig argymhellion er mwyn annog y prif asiantaethau i wella'r broses o gydweithio a chydweithredu. Ar 9 Mawrth 2005, cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol drafodaeth ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad o'r Rhyngwyneb rhwng y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan reol Sefydlog 24.25 (1 munud )**
- **The CroW Act 2000 (Commencement No7) (Wales) Order 2005**

    This Commencement Order will bring into force provisions relating to the creation of registers to hold local information on certain rights of way applications; provisions relating to the protection of school pupils and staff; and other technical provisions relating to rights of way.

    - **The Food Labelling (Amendment) (Wales) (No2) Regulations 2005**

    These Regulations will implement in Wales Commission Directive 2004/77/EC amending Directive 94/54/EC as regards the labelling of certain foods containing glycyrrhizinic acid (which occurs naturally in the liquorice plant *Glycyrrhiza glabra*) and its ammonium salt (which is manufactured from

aqueous extracts of the liquorice plant). The new rules will require confectionery and drinks containing certain levels of glycyrrhizinic acid and its ammonium salt to be labelled with the indication "contains liquorice" and for this to be coupled with a health warning in certain cases.

- **The Miscellaneous Food Additives (Amendment) (No2) (Wales) Regulations 2005**

  These Regulations will transpose and implement Council Directive 2003/114/EC. This Statutory Instrument updates in Wales the rules relating to the use of miscellaneous additives in foods. The Miscellaneous Food Additives Regulations 1995 (as amended) implement all existing European legislation relating to miscellaneous additives. These Regulations amend the 1995 Regulations. The legislation forms part of a continuing programme to update EU specifications for food additives, which are used to ensure the purity of food additives.

- **The Poultry Meats, Farmed Game Bird Meat & Rabbit (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2005**

  The Regulations are being made to implement the provisions of Article 5(1)(b) of Council Directive 71/118/EEC, which prohibits the placing on the market of fresh poultry meat where water retention agents have been used. These Regulations amend the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995 and corrects an under-implementation of the EU Poultry Meat Directive 71/118/EEC.

- **30 munud ar gyfer is-ddeddfwriaeth**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Addysg 2005 i Brif Weinidog Cymru (20 munud)**

## Dydd Mercher 11 Mai 2005

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y'i nodwyd yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**
- **Dadl ar Fand Eang Cymru (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**